



Cyflwyniad

Nod y Rhaglen Fusnes Datblygu Masnach yw galluogi i fusnesau yng Nghymru greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy drwy gefnogi cynhyrchwyr bwyd a diod Cymru gyda chefnogaeth benodol – mae'r Pecyn Adnoddau Busnes Cynaliadwy yn esiampl o'r gefnogaeth hon.

Mae'r pecyn adnoddau yn cynnwys cyfres o ganllawiau busnes sy'n addas i anghenion busnesau bach, canolig a mawr wrth iddynt ddatblygu eu busnes i greu twf mewn gwerthiant a chreu swyddi.

Modiwl 1 – Dechrau Arni

Pwrpas y modiwl cyntaf hwn yw eich tywys drwy broses feddwl y gwaith o sefydlu busnes bwyd newydd sbon.

Ymhlith y pynciau allweddol mae cynlluniau ariannol, gofynion cyfreithiol, a'r heriau ymarferol sy'n wynebu'r rhai sy'n dechrau arni mewn cynhyrchu bwyd a diod.

Modiwl 2 – Hwyluso Twf

Mae'r modiwl hwn yn cymryd yn ganiataol eich bod wedi sefydlu eich busnes newydd yn llwyddiannus, wedi rhoi sylw i'r holl faterion cyfreithiol cychwynnol a'ch bod nawr yn ystyried symud y tu hwnt i'r cam cyntaf yma.

Ymhlith y pynciau allweddol mae strategaeth, strwythur busnes, buddsoddi mewn ehangu, a rheolaeth.

Modiwl 3 – Twf Drwy Farchnata

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno cysyniadau marchnata ac yn trafod sut gallwch eu defnyddio i helpu i ddatblygu eich busnes.

Ymhlith y pynciau allweddol mae strategaeth farchnata, ymchwil i'r farchnad, y gymysgedd farchnata, a brandio.

Modiwl 4 – Rhagoriaeth Weithredol

Mae'r modiwl hwn yn edrych yn fanwl yn awr ar sut yn union bydd eich busnes yn llwyddo i wneud a gwerthu pethau fel sy'n ofynnol er mwyn gwneud elw.

Ymhlith y pynciau allweddol mae cynllunio, adrodd yn ôl, rhagweld gwerthiant, gweithgynhyrchu, rheoli'r gadwyn gyflenwi, dosbarthu a logisteg.

Modiwl 5 – Rheoli Perthnasoedd

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar reoli eich perthnasoedd gyda chwsmeriaid yn effeithiol.

Ymhlith y pynciau allweddol mae rheoli cyfrifon, rheoli categorïau, paratoi ar gyfer cyfarfodydd, a thrafod.

Modiwl 6 – Pwyso a Mesur ac Edrych Ymlaen

Mae'r modiwl terfynol hwn yn edrych ymhellach i'r dyfodol ac yn cymryd yn ganiataol bod eich busnes wedi'i sefydlu'n dda. Adolygu a gwella eich busnes presennol fydd eich cam nesaf, ac edrych ar opsiynau ar gyfer twf mewn llyfod eraill, e.e. drwy NPD neu Allforion.